

Cynigion Allweddol ar Weithrediad yr Awyr Agored



Mae Blwyddyn Antur 2016 yn gyfle gwych i sefydliadau yng Nghymru gael cydweithio i hyrwyddo set o brif egwyddorion i Lywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar yr awyr agored a darparu sylfaen ar gyfer polisïau'r dyfodol, sy'n ochri â saith nod llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.



Cymru fwy cyfartal a chyfrifol byd-eang i geisio cael strategaeth llywodraeth gyfan gyda chefnogaeth weinidogol i hyrwyddo hamdden awyr agored a thwristiaeth antur

Dylai sefydliadau'r sector awyr agored, asiantaethau ac adrannau'r llywodraeth barhau i gydweithio i gytuno, gweithredu ac ariannu rhaglen strategol sy'n cydnabod pwysigrwydd hamdden awyr agored a thwristiaeth antur i Gymru ac i'r Cymry.

Cymru Lewyrchus Datblygu'r economi wledig

Fe gyfrannodd y sector awyr agored werth £304m i dwristiaeth- 12% o economi twristiaeth Cymru (Miller 2014). Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgaredd economaidd wedi'i leoli o fewn yr economi wledig ac yn cyfrannu tuag at 8,243 o swyddi (FTE). Mae economi awyr agored Cymru yn darparu llwyfan ar gyfer optimeiddio'i diwylliant, addysg, mwynhad amgylcheddol, iechyd, treftadaeth, hamdden a lles. Mae angen cydnabyddiaeth, anogaeth a chefnogaeth ar y gwahanol sefydliadau, boed yn gyhoeddus, preifat neu yn y drydedd sector, er mwyn datblygu a thyfu i greu sector awyr agored a ellid cyfrannu at raglenni cenedlaethol.

Cymru Gydnherth

Defnydd Cynaliadwy o Adnoddau Naturiol

Mae tirwedd naturiol Cymru yn darparu cyfleoedd byd-eang gydag afonydd, llynnoedd, camlesi, mynyddoedd, llwybrau troed a lonydd beic rhagorol; traethau sydd wedi ennill gwobrau, yn ogystal ag amrywiaeth o chwaraeon ddŵr, gweithgareddau arfordirol a safleoedd hanesyddol a diwylliannol. Bydd rhaid i'r adnoddau yma parhau i gael eu rheoli'n gydymdeimladol gan ddefnyddwyr (rheolwyr tiroedd, darparwyr gweithgareddau awyr agored, cadwraethwyr a chyrrff statudol) gan gydweithio â gwell wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol ar gyfer defnydd a mwynhad y cenedlaethau i ddod.

Cymru Iachach, Cymru fwy Cyfartal a Chymru o Ddiwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu Ysbrydoli mwy o bobl i fod yn actif yn yr awyr agored – sefydlu newid o genhedlaeth i genhedlaeth

Y prafw ar gyfer cyfranogaeth hir dymor mewn gweithgareddau awyr agored ac anturus yw oedolion, yn enwedig rhwng 16 - 25 oed, sy'n dewis cymryd rhan yn y gweithgareddau yma yn eu hamser hamdden. I wireddu hyn, bydd angen y newid o genhedlaeth i genhedlaeth gan ddylanwadu ar ffyrdd o fyw'r genhedlaeth nesaf, rŵan. Wrth ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc fel blaenoriaeth i'r buddsoddiad, bydd angen sicrhau bod y cynnyrch yn ddifyr, wedi'i ddarparu'n lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, mewn dull amserol gyda gofal am yr amgylchedd gan arweinwyr ysbrydoledig

Cymru â Chymunedau Cydlynus Cryfhau Cymunedau

Wrth gydnabod gwerth yr awyr agored, gwelir bod angen cymunedau cryf ar breswylwyr, ymwelwyr, diwylliant a threftadaeth Gymreig.

Mae adeiladu rhwydweithiau cymunedol cadarn yn caniatáu i ymyriadau fod yn uniongyrchol a pherthnasol. Mae clybiau cymunedol a sefydliadau, nifer o'r rhai sydd eisoes yn bodoli, angen buddsoddiad, cyfeiriad a chefnogaeth. Bydd cymunedau cryf yn cefnogi'r holl ddi-ddordebau a gallu o fewn y gymdeithas i wireddu potensial ar sail unigol.

Cymru Gynaliadwy Cyfleoedd cynaliadwy

I gyflawni cyfleoedd cynaliadwy mae angen i'r asiantau allweddol weithio a'i gilydd gan groesawu llwybrau datblygiad. Mae angen llwybrau cyfunol ar gyfer addysg, hyfforddiant galwedigaethol, datblygiad sgiliau, hyfforddiant a chefnogaeth i wirfoddolwyr, cyfranogaeth ac ymwelwyr/twristiaid. Mae llwybrau llwyddiannus yn ddibynnol ar gynnyrch diogel o ansawdd, lleoliadau a gofal cwsmer.

